# Cynllun Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron y DU: Sŵau

## Cwmpas

Mae lleihau’r risg a achosir gan lwybrau cyflwyno a lledaenu yn ffordd allweddol o fynd i’r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr a Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Gogledd Iwerddon yn galw am ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau ac maent hefyd yn un o ofynion Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE a gedwir.

Y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o gynlluniau a fwriedir i fynd i'r afael â llwybrau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cynllun yn amlinellu'r polisi a dulliau gweithredu cyffredinol yn ogystal â'r hyn y mae modd ei gyflawni gan y llywodraeth a gweithredwyr eraill mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae'r cynllun hwn ar gyfer sŵau, sy'n cynnwys sefydliadau megis parciau bywyd gwyllt, acwaria, canolfannau hebogyddiaeth, tai ymlusgiaid, casgliadau gloÿnnod byw a pharciau fferm sy'n cadw rhywogaethau annomestig.

Paratowyd y cynllun hwn gan weithgor (gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Sŵau) a oedd yn adrodd i Fwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron y DU (gweler Atodiad 1 am aelodaeth).

## Sail resymegol

Er bod gan y mwyafrif o sŵau hanes da o atal diangfeydd ac adennill unrhyw anifeiliaid sydd wedi dianc, mae yna ddigwyddiadau o ddianc o hyd yn ogystal ag achosion o anifeiliaid sy'n cael symud yn rhydd i mewn ac allan o gaethiwed, y mae rhai ohonynt yn gallu sefydlu poblogaethau a dod yn oresgynnol.

Ym Mhrydain, mae’r maes hwn yn dod o dan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy’n darparu gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau’r rhan fwyaf o rywogaethau estron o anifeiliaid a llawer o blanhigion yng Nghymru a Lloegr, a phob rhywogaeth estron yn yr Alban. Mae Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â throseddau, cosbau, gorfodi a thrwyddedu er mwyn bodloni gofynion ychwanegol Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir. Mae’r gorchymyn yn gymwys i Gymru a Lloegr a’r ardal forol alltraeth, ac o ran unrhyw ddarpariaeth sy’n gymwys mewn perthynas â rheolaethau ar fewnforion i mewn ac allforion o’r Deyrnas Unedig, ac unrhyw ddarpariaeth sy’n ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth o’r fath, i’r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cael ei diwygio er mwyn darparu ar gyfer mesurau gorfodi a brys o dan y rheoliad a gedwir.

Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith deddfwriaethol ar wefan

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

Yng Ngogledd Iwerddon y deddfau perthnasol yw Ddeddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011, Rheoliadau Trwyddedu Sŵau (Gogledd Iwerddon) 2003 a Gorchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985. Er bod archwiliadau sŵau a chofnodi diangfeydd eisoes yn orfodol o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981, mae'r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu ychwanegol a ddylai helpu i leihau'r risg y bydd rhywogaethau estron yn ymsefydlu yn y gwyllt. Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, mae yna hefyd God Ymarfer Ewropeaidd ar gyfer Sŵau ac Acwaria sydd wedi'i ddatblygu gan Gonfensiwn Bern.

Mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Sŵau wedi cytuno ar ganllawiau ar gyfer sŵau yng Nghymru a Lloegr (Atodiad 2) ac wedi awgrymu diwygiadau i ganllawiau Grŵp Gweithredu Rhywogaethau Estron yr Alban ar gyfer sefydliadau yn yr Alban (Atodiad 3). Mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Sŵau hefyd wedi diwygio cod ymarfer Confensiwn Bern i'w deilwra i anghenion y DU (Atodiad 4). Ei brif allbwn, fodd bynnag, fu cytuno ar gyfres o fesurau i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithredwyr allweddol yn y sector hwn a chryfhau mecanweithiau presennol, megis sicrhau yr ymdrinnir â diangfeydd fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981. Amlinellir y camau hyn isod ac maent yn ffurfio prif gorff y cynllun gweithredu.

Mae gan sŵau hefyd rôl statudol mewn addysg a chadwraeth ac mae llawer yn weithgar wrth warchod rhywogaethau y mae rhywogaethau goresgynnol yn effeithio arnynt. Mae rhai eisoes yn helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhywogaethau goresgynnol ymhlith eu hymwelwyr. Ein nod yw y bydd y rôl hon yn tyfu.

## Nodau ac amcanion

Nod cyffredinol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw lleihau'r risg o sefydlu rhywogaethau estron goresgynnol posibl a achosir gan ddiangfeydd o sŵau.

Amcanion penodol yw:

- codi ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith sŵau;
- sicrhau nad yw anifeiliaid sw sydd â mynediad y tu allan i'r sw yn cael aros y tu allan i'r sw fel mater o drefn;
- sicrhau bod cynlluniau ar waith ym mhob cyfleuster i adennill pob dihangfa – nid dim ond y rhai sy'n peri perygl i'r cyhoedd;
- gwella gallu'r DU gyfan ar gyfer ymateb i'r camau sefydlu cychwynnol o ddiangfeydd o gasgliadau anifeiliaid ar y cyd â'r gweithgor ymateb cyflym;
- sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i adrodd yn brydlon ar unrhyw rywogaethau sy'n dianc a allai ymsefydlu yn y gwyllt i'r llywodraeth;
- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diangfeydd ymhlith arolygwyr sŵau, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a

Phlanhigion (APHA) a’r heddlu i sicrhau yr eir i’r afael â’r mater hwn yn gadarn;

- adolygu'r broses o gofnodi gwybodaeth am ddiangfeydd mewn sŵau ac ymchwilio i ffyrdd posibl o gasglu'r wybodaeth hon yn ganolog;
- gwneud mwy o ddefnydd o sŵau i helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broblem o rywogaethau goresgynnol ymhlith eu hymwelwyr.

**Camau**

*Cam gweithredu 1*
Bydd y pedair llywodraeth a’u hasiantaethau yn sicrhau bod y canllawiau y cytunwyd arnynt, ynghyd â Chod Ymarfer y DU, yn cael eu dosbarthu i bob sw:

Yn yr Alban – bydd NatureScot (ar y cyd â Chymdeithas Sŵolegol Frenhinol yr Alban) yn ysgrifennu at neu’n ymweld â sŵau i egluro cyd-destun a goblygiadau’r canllawiau.

Yng Nghymru a Lloegr – bydd y canllawiau’n cael eu hanfon i bob sw gan APHA.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd y canllawiau yn cael eu hanfon i sŵau gan unedau bywyd gwyllt a milfeddygol DAERA.

*Cam gweithredu 2*
Bydd y canllawiau y cytunwyd arnynt a llythyr eglurhaol yn cael eu hanfon at bob awdurdod lleol.

Yn yr Alban – bydd NatureScot yn dosbarthu hyn i gysylltiadau awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhwydwaith o Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yr Alban.

Yng Nghymru a Lloegr – bydd APHA yn dosbarthu i gysylltiadau awdurdodau lleol.

*Cam gweithredu 3*
Bydd Defra yn anfon y canllawiau, ynghyd â Chod Ymarfer y DU, at Gymdeithas Parciau Hamdden Prydain, Piers and Attractions Limited (BALPPA) a'r Rhwydwaith Atyniadau Fferm Cenedlaethol (NFAN).

*Cam gweithredu 4*

Bydd BIAZA yn helpu i godi lefel ymwybyddiaeth drwy wahodd sgyrsiau yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol a chyfarfodydd rhanbarthol a rhoi cyhoeddusrwydd i’r canllawiau a Chod Ymarfer y DU ar-lein ac yn ei gylchgrawn fel y bo’n briodol.

*Cam gweithredu 5*
Ym Mhrydain Fawr, bydd APHA yn dosbarthu'r canllawiau y cytunwyd arnynt i bob arolygydd sw gyda'r llythyr comisiynu cyn pob ymweliad.
Yng Ngogledd Iwerddon, bydd DAERA/NIEA yn dosbarthu'r canllawiau y cytunwyd arnynt i bob arolygydd sw gyda'r llythyr comisiynu cyn pob ymweliad.

*Cam gweithredu 6*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r broses o gofnodi diangfeydd mewn sŵau a gwneud argymhellion ar ffyrdd y gellir adrodd a choladu'r wybodaeth hon yn ganolog.

*Cam gweithredu 7*
Bydd y Pwyllgor Arbenigwyr Sŵau yn ailddrafftio'r canllawiau ar gyfer arolygwyr sŵau a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael yn fwy penodol â mater y mathau o arddangosion a allai fynd yn groes i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, lle mae gan anifeiliaid fynediad heb ei reoli y tu allan i'r sw (e.e. adar sy'n hedfan yn rhydd, llygod y paith ac ati).
- Sicrhau ei bod yn eglur bod y gofynion sy'n ymwneud â diangfeydd ym mharagraffau 8.29 – 8.40 o Safonau ar gyfer Arferion Sŵau Modern yr Ysgrifennydd Gwladol yn berthnasol i anifeiliaid estron yn ogystal â'r rhai sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.

*Cam gweithredu 8*
Ym Mhrydain Fawr, bydd Defra / yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn cysylltu â'r Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol i gytuno ar y ffordd orau o roi cyngor i arolygwyr sŵau, awdurdodau trwyddedu sŵau, CNC, Treftadaeth Naturiol yr Alban, Natural England a Swyddogion Cyswllt Troseddau Bywyd Gwyllt ar gasglu a rhannu gwybodaeth am achosion o dorri Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a'r ystod o opsiynau ar gyfer delio â'r rhain.
Yng Ngogledd Iwerddon, bydd DAERA yn cysylltu â'r PSNI, PAW a'r Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol i gytuno ar y ffordd orau o roi cyngor i arolygwyr sŵau ar gasglu a rhannu gwybodaeth am achosion o dorri rheolau'r Gorchymyn Bywyd Gwyllt a'r ystod o opsiynau ar gyfer delio â'r rhain.

*Cam gweithredu 9*
Ym Mhrydain Fawr, bydd APHA yn gofyn i arolygwyr sŵau i adrodd am bob digwyddiad (yn ôl iddynt) o arddangosion gydag anifeiliaid sydd â mynediad heb ei reoli y tu allan i'r sw.

*Cam gweithredu 10*
Bydd Natural England, NatureScot, DAERA a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal llinell adrodd ar gyfer diangfeydd o rywogaethau sy'n gallu ymsefydlu.

*Cam gweithredu 11*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn gweithio gyda BIAZA a sŵau nad ydynt yn rhai BIAZA i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau goresgynnol ymhlith eu hymwelwyr.

*Cam gweithredu 12*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn sicrhau bod y gweithgor ymateb cyflym yn cynnwys nodau'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn o fewn ei gylch gorchwyl, gan gynnwys drwy asesu pa wybodaeth, arbenigedd ac adnoddau sy'n bodoli i ymdrin â phoblogaethau o anifeiliaid sw sydd wedi dianc yn ymsefydlu.

**Monitro a diweddaru**
Bydd y gweithgor yn cael ei ailgynnull yn flynyddol i asesu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu. Bydd y grŵp yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- Nifer y diangfeydd yr adroddwyd amdanynt (i'r llinellau adrodd).
- Adborth o archwiliadau sŵau.
- Adborth o sŵau unigol a thrwy BIAZA.

**Atodiad 1 Aelodau'r gweithgor**

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (cadeirydd)

BIAZA

Pwyllgor Arbenigwyr Sŵau

Defra

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth yr Alban

Llywodraeth Gogledd Iwerddon

Natural England

NatureScot (Treftadaeth Naturiol yr Alban gynt)

Cyfoeth Naturiol Cymru

**Atodiad 2:** Canllawiau sŵau y cytunwyd arnynt (ar ddianc ac ati) ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Atodiad 3:** Canllawiau sŵau (ar ddianc ac ati) ar gyfer yr

Alban

**Atodiad 4:** Canllawiau sŵau y cytunwyd arnynt (ar ddianc ac

ati) ar gyfer Gogledd Iwerddon

**Atodiad 5:** Cod Ymarfer y DU ar gyfer Sŵau.